PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9: MIS MAI 2001 TAN FIS EBRILL 2002

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein gweithgareddau o fis Mai 2001 tan fis Ebrill 2002. Gellir gweld copïau o'n hadroddiadau, agendâu, papurau, cofnodion a thrawsgrifiadau ein cyfarfodydd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol (1).

2. Aelodau

2.1 Ar hyn o bryd aelodau'r Pwyllgor yw: Richard Edwards (Cadeirydd), Eleanor Burnham, David Davies, Janet Davies, Sue Essex (y Gweinidog dros yr Amgylchedd), Brian Hancock, Val Lloyd, Tom Middlehurst, Karen Sinclair a Phil Williams. Newidiodd aelodaeth y Pwyllgor sawl gwaith yn ystod y cyfnod dan sylw (2).

3. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

3.1 Mae ein cylch gwaith yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Sue Essex, ac y mae'n cynnwys: diogelu'r amgylchedd; materion cefn gwlad; cynllunio; trafnidiaeth; datblygu cynaliadwy; a henebion ac adeiladau rhestredig a hanesyddol.

3.2 Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheol Sefydlog 9.

4. Blaenoriaethau

4.1 Rydym wedi ceisio datblygu dull strategol o fwrw ati â'n gwaith, gan ganolbwyntio ar ddwy flaenoriaeth allweddol yn ystod y cyfnod dan sylw: yr ymchwiliad annibynnol i safle claddu gwastraff Nantygwyddon; a'r adolygiad polisi o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

4.2 Rydym wedi ymrwymo i'w gwneud yn haws i bobl Cymru weld ein trafodion. I'r diben hwn, cynhaliwyd cyfarfod yn Aberhonddu yn ystod tymor yr haf, a dau gyfarfod yn Rhondda yn ystod tymor yr hydref fel rhan o ymchwiliad Nantygwyddon, a lansiwyd yr adroddiad ar ein hymgynghoriad trafnidiaeth gyhoeddus yn yr orsaf bysiau a threnau yng Nghaerffili.

5. Ein Gwaith a'r Hyn a Gyflawnwyd Hyd yn Hyn

5.1 Cynhaliwyd deunaw cyfarfod yn ystod y cyfnod dan sylw. Mae'r prif bethau a gyflawnwyd fel a ganlyn:

Ymchwiliad Nantygwyddon

5.2 Yn dilyn y ffaith bod trigolion lleol wedi mynegi pryderon ynghylch yr effaith yr oedd safle claddu gwastraff Nantygwyddon yn y Gelli, Rhondda yn ei chael ar eu hiechyd a'u hamgylchedd, penderfynodd y Cynulliad Cenedlaethol y dylid cynnal ymchwiliad annibynnol i'r modd y cafodd y safle ei sefydlu, ei reoli a'i reoleiddio (3).

5.3 Adroddodd ein hymchwilydd annibynnol i ni ym mis Rhagfyr 2001, ac fe adroddom ninnau i'r cyfarfod llawn ym mis Chwefror 2002 (4). Roedd rhai argymhellion yn benodol i safle claddu gwastraff Nantygwyddon ac eraill yn ymwneud â gwersi cyffredinol ar gyfer dyfodol y gwaith o reoli gwastraff yng Nghymru, gan gynnwys yr angen i fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch iechyd sy'n gysylltiedig â chyfleusterau gwaredu gwastraff. Cymeradwyodd y cyfarfod llawn ein hargymhellion, a bydd y Gweinidog dros yr Amgylchedd yn adrodd yn ôl ar hynt y gwaith cyn toriad yr haf. Mae'r safle bellach wedi'i gau.

5.4 Ein hymchwiliad oedd y cyntaf o'i fath gan y Cynulliad Cenedlaethol, gan ddefnyddio ymchwilydd annibynnol i gwrdd â thrigolion lleol er mwyn gwneud gwaith casglu a dadansoddi tystiolaeth fanwl ar ran pwyllgor. Mae hyn wedi gosod cynsail ar gyfer gwaith y pwyllgorau pwnc eraill. Byddwn nawr yn adolygu'r broses er mwyn nodi pa wersi y gellid eu dysgu ar gyfer unrhyw ymchwiliadau a gynhelir yn y dyfodol.

Datblygu polisi (Rheol Sefydlog 9.7 (i))

- **Yr adolygiad polisi o drafnidiaeth gyhoeddus**

5.5 Cynhaliwyd adolygiad gennym o drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru er mwyn nodi pa gamau yr oedd angen eu cymryd i hwyluso'r gwaith o wella ac integreiddio'r gwasanaethau. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ymgynghori ym mis Gorffennaf, a chyflwynwyd ein hargymhellion terfynol i'r cyfarfod llawn ym mis Rhagfyr 2001 (5). Diffinwyd gweledigaeth ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru, gan argymell cynyddu'r buddsoddiad yn y gwasanaethau, newid strwythurol a mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

5.6 Derbyniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bob un o'n hargymhellion, ac maent bellach yn cael eu rhoi ar waith. Bydd y Gweinidog dros yr Amgylchedd yn cyflwyno rhagor o gynigion i'r cyfarfod llawn yn ystod tymor yr haf ar gyfer newid strwythurol, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnwys Mesur Cludiant i Deithwyr ei gynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol yn San Steffan.

5.7 Yn ogystal, cyflwynwyd ein hargymhellion i Bwyllgor Materion Cymreig Senedd y DU (pwyllgor pwnc cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol i wneud hynny), a byddant yn mynd i'r afael â'n galwad am newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol fel rhan o'u hymchwiliad trafnidiaeth.

5.8 Yn gysylltiedig â'n hadolygiad o drafnidiaeth gyhoeddus, craffwyd ar berfformiad cwmnïau trenau sy'n darparu gwasanaethau i deithwyr yng Nghymru, a chafwyd cyfarfod ag Awdurdod Strategol y Rheilffyrdd er mwyn trafod eu cynllun newydd ar gyfer rheilffyrdd Prydain.

Cyfrannu at ddatblygu polisi

5.9 Yn ychwanegol at ein hadolygiad ein hunain, cyfrannwyd hefyd at adolygiad polisi'r Pwyllgor Diwylliant o'r iaith Gymraeg, yn ogystal â datblygiadau polisi allweddol y mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd yn gweithio arnynt (6).

Adolygu Gwariant a Gweinyddiaeth (Rheol Sefydlog 9.7 (ii))

5.10 Craffwyd yn rheolaidd ar waith y Gweinidog dros yr Amgylchedd trwy ei Hadroddiad.

Adolygu Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.7 (iii))

5.11 Buom yn craffu ar berfformiad y cyrff canlynol yn erbyn eu targedau blynyddol: Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Parciau Cenedlaethol Cymru (Bannau Brycheiniog, Arfordir Sir Benfro ac Eryri) (7), a Cadw: Welsh Historic Monuments (8). Cyfrannwyd hefyd at adolygiadau pum mlynedd Cadw (y cylch gorchwyl) a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (yr adroddiad terfynol drafft), ac at yr Adolygiad ar y cyd rhwng Cymru a Lloegr o Bolisi a Rheolaeth Ariannol Asiantaeth yr Amgylchedd (cam 1).

Deddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8 (i))

5.12 Adroddwyd i'r cyfarfod llawn ar Orchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001, wedi'i gyfeirio atom (9). Craffwyd ar amryw o gynigion drafft i roi darpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ar waith, gan gynnwys diwygio'r rheoliadau cyfredol (10). Hefyd, cynghorwyd ni ynghylch hynt darnau eraill o is-ddeddfwriaeth yn ystod amryw gamau yn eu datblygiad (11).

Y Gyllideb (Rheol Sefydlog 9.8 (ii))

5.13 Nodwyd ein blaenoriaethau o ran y gyllideb yn ystod tymor yr haf, a rhoddwyd sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ystod tymor yr hydref (12).

Cwynion (Rheol Sefydlog 9.8 (iii))

5.14 Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion atom yn ystod y cyfnod dan sylw.

Penodiadau Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 9.8 (iv))

5.15 Ymgynghorwyd ag aelodau'r Pwyllgor a enwebwyd i ystyried penodiadau cyhoeddus (13) ar nifer o benodiadau i gyrff cyhoeddus yn ystod y cyfnod dan sylw (14).

6. Blaenraglen

6.1 Gan edrych tua'r dyfodol, amgaeir ein rhaglen waith strategol ar gyfer 2002-03 (Atodiad A) a'n rhaglen waith fanwl ar gyfer y cyfnod o fis Mai tan fis Gorffennaf 2002 (Atodiad B).

Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth
Mis Mai 2002

TROEDNODION

(1) Gweler tudalennau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar wefan y Cynulliad, sef www.cymru.gov.uk/keypubassemeplantrans/index.htm
(2) Ymunodd Eleanor Burnham yn lle Mick Bates (Democratiaid Rhyddfrydol) ar 16 Hydref 2001; ymunodd Val Lloyd yn lle John Griffiths (Llafur) ar 27 Tachwedd 2001; ymunodd Janet Davies, Brian Hancock a Phil Williams yn lle Geraint Davies, Helen Mary Jones a Rhodri Glyn Thomas (oll o Blaid Cymru) ar 21 Mawrth 2002.
(3) Gweler www.cymru.gov.uk am gofnod trafodion y Cynulliad ar 4 Gorffennaf 2000. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch yr ymchwiliad ar ein tudalennau ar y wefan.
(4) Gweler www.cymru.gov.uk am gopïau o adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol a'n hadroddiad ninnau (ISBN 0 7504 2873 2).
(5) Gweler www.cymru.gov.uk am gopïau o'n hadroddiad ymgynghori (ISBN 0 7504 2699 3) a'n hadroddiad terfynol (ISBN 7504 2820 1).
(6) Polisi Cynllunio Cymru, yr Adolygiad o Amddiffynfeydd rhag Llifogydd, Strategaeth Diogelwch Ffyrdd Cymru, y Fframwaith Trafnidiaeth a'r Strategaeth Gwastraff.
(7) EPT-11-01 21 Mehefin 2001. Gweler www.cymru.gov.uk am yr agenda, y papurau a'r cofnodion.
(8) EPT-16-01 14 Tachwedd 2001. Gweler www.cymru.gov.uk am yr agenda, y papurau a'r cofnodion.
(9) Gweler www.cymru.gov.uk am y dogfennau a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 14 Mehefin 2001.
(10) Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Drafft) 2001, Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) 2001, a rheoliadau drafft arfaethedig ar gyfyngu mynediad, cyflwyno tir yn wirfoddol fel tir mynediad, a (gan ddiwygio'r rheoliadau cyfredol) gweithdrefnau llywodraethu apeliadau sy'n gysylltiedig â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.
(11) Rheoliadau Deddf Trafnidiaeth (Consesiynau Teithio) (Trefniadau Ad-dalu) (Cymru) 2001; Gorchymyn Consesiynau Teithio (Estyn yr Hawl i'w Cael)

Cymru 2001; Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2001; Rheoliadau'r Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) (Diwygio) 2001; Rheoliadau Gwastraff Arbennig (Diwygio) (Cymru) 2001; Rheoliadau Cytundebau Cymhorthdal Gwasanaeth (Tendro) (Diwygio) (Cymru) 2001; a'r cychwyniad arfaethedig i Ddeddf Cymhwyster Consesiynau Teithio 2000 a'r rheoliadau ar gyfer allyriadau o gerbydau ffordd.

(12) Gweler tudalennau'r gyllideb a chynllunio strategol ar www.cymru.gov.uk am gopïau o'n hymatebion.

(13) Yr aelodau presennol a enwebwyd yw Eleanor Burnham a Tom Middlehurst. Yn ystod y cyfnod dan sylw, cyflawnwyd y ddyletswydd hon gan: Mick Bates a Richard Edwards (Mai – 17 Hydref 2001), ac Eleanor Burnham a Richard Edwards (17 Hydref 2001 – 13 Mawrth 2002).

(14) Comisiwn Dylunio Cymru (Cadeirydd ac Aelodau), y Pwyllgor Rhanbarthol Amddiffyn rhag Llifogydd (Aelod), Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Aelodau), Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Aelodau).

ATODIAD A

PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

BLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL
Mis Mai 2002 tan fis Mai 2003

Cyflwyniad

1. Mae'r rhaglen waith hon yn amlinellu blaenoriaethau strategol y Pwyllgor rhwng mis Mai 2002 ac etholiadau nesaf y Cynulliad a gynhelir ym mis Mai 2003. Amgaeir rhaglen waith fanwl ar gyfer y cyfnod o fis Mai tan fis Gorffennaf 2002.

Cylch gwaith a chyfrifoldebau

2. Mae ein cylch gwaith yn adlewyrchu porffolio'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Sue Essex, ac y mae'n cynnwys: diogelu'r amgylchedd; materion cefn gwlad; cynllunio; trafnidiaeth; datblygu cynaliadwy; a henebion ac adeiladau rhestredig a hanesyddol.

3 Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheol Sefydlog 9.

Nodau

4. Rydym yn ceisio arwain yn y meysydd canlynol: rheoli'r amgylchedd yn gynaliadwy; datblygu sy'n parchu'r amgylchedd ac sy'n cynnal cymunedau lleol; system drafnidiaeth gynaliadwy ac integredig; a threftadaeth Cymru.

Blaenoriaethau

5. Gan fod gennym gylch gwaith mor eang, rydym wedi datblygu dull strategol o fwrw ati â'n gwaith. Mae ein blaenoriaethau am y flwyddyn i ddod fel a ganlyn:

- *Datblygu polisi* (Rheol Sefydlog 9.7(i)) – bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd datblygu polisi y gall effeithio fwyaf arnynt, a bydd yn ceisio ategu'r polisïau y mae'r Gweinidog wrthi'n eu datblygu yn hytrach na'u dyblygu. Yn ystod y flwyddyn i ddod, mae'r Pwyllgor yn bwriadu adolygu'r meysydd polisi canlynol:

- Bioamrywiaeth
- Gwastraff ymbelydrol (ac efallai gwastraff peryglus yn gyffredinol)
- Llosgi gwastraff

- *Craffu ar waith y Gweinidog* (Rheol Sefydlog 9.7(ii)) – bydd y Gweinidog dros yr Amgylchedd yn adrodd i ni yn rheolaidd ar ddatblygiadau cyfredol o fewn y portffolio. Unwaith y flwyddyn, byddwn yn craffu ar berfformiad y Gweinidog yn erbyn targedau, ac efallai yn cynnal sesiynau craffu thematig o bryd i'w gilydd. Rydym hefyd yn bwriadu craffu ar y modd y cyflawnir y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy.

- *Craffu ar gyrff a noddir gan y Cynulliad* (Rheol Sefydlog 9.7 (iii)) – byddwn yn cynnal sesiwn flynyddol yn ystod tymor yr haf i graffu ar waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Pharciau Cenedlaethol Cymru, a byddwn yn rhoi sylwadau ar eu rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol. Byddwn hefyd yn craffu'n flynyddol ar waith Cadw: Welsh Historic Monuments yn ystod tymor y gwanwyn, pan fyddwn hefyd yn rhoi sylwadau ar Gynllun Corfforaethol drafft Cadw. Byddwn yn parhau i gynghori ar adolygiadau pum mlynedd y cyrff a noddir gan y Cynulliad a Cadw, ar yr adegau perthnasol.

- *Eitemau eraill (*Rheol Sefydlog 9.8) – bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried yr eitemau canlynol wrth iddynt godi:

  - *deddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru* (Rheolau Sefydlog 9.8(i) a 22) – bob tymor bydd y Gweinidog yn amlinellu'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig er mwyn i'r Pwyllgor allu nodi'r meysydd yr hoffai ddarparu cyngor arnynt. Ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried araith y Frenhines, bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol ddrafft a gyfeiriwyd ato gan y Cyfarfod Llawn. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried is-ddeddfwriaeth ddrafft a gyfeiriwyd ato gan y Pwyllgor Busnes, fel sy'n briodol;

  - *cynigion ar gyfer dyrannu cyllideb y Cynulliad* (Rheol Sefydlog 9.8 (ii)) – bydd y Pwyllgor yn mynd ati yn ystod tymor yr haf i nodi ei flaenoriaethau o ran dyrannu'r gyllideb a bydd yn gwneud sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ystod tymor yr hydref;

  - *cwynion* (Rheolau Sefydlog 9.8(iii) ac 21*)* - bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gwynion a gyfeiriwyd ato;

  - *penodiadau cyhoeddus* (Rheolau Sefydlog 9.8(iv) ac 20) – bydd y ddau a enwebwyd gan y Pwyllgor yn cymryd rhan yn y broses o benodi pobl i swyddi gyda chyrff cyhoeddus pan ddaw'r swyddi'n wag;

  - *unrhyw faterion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad* (Rheol Sefydlog 9.8 (v)) – bydd y Pwyllgor yn ystyried materion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad Cenedlaethol, ond hoffai ofyn i'r Aelodau ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor cyn cyflwyno cynigion sy'n gwahodd y cyfarfod llawn i gyfeirio gwaith at y Pwyllgor.

Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth
Mis Mai 2002

ATODIAD B

PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

RHAGLEN WAITH FANWL – TYMOR YR HAF 2002

Cyfarfod	Rhif Eitem	Eitemau ar yr Agenda
Dydd Mercher 17 Ebrill 2.00 – 4.00 pm	1 2 3 4 5	Ymddiheuriadau a dirprwyon Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd Adroddiad blynyddol ddrafft Rhaglen Waith Cofnodion y cyfarfod diwethaf
Dydd Mercher 1 Mai 2.00 – 5.00 pm	1 2 3 4 5	Ymddiheuriadau a dirprwyon Is-ddeddfwriaeth: edrych tua'r dyfodol Adolygiad polisi: cylch gorchwyl drafft Glas Cymru: adolygiad perfformiad ac edrych i'r dyfodol Cofnodion y cyfarfod diwethaf
Dydd Iau 9 Mai 2.00 - 5.00 pm Slot ar gyfer sesiwn anffurfiol neu, gyda chaniatâd y Pwyllgor Busnes, gyfarfod ffurfiol		Ymweliad gan Bwyllgor Datblygu Rhanbarthol Gogledd Iwerddon (12.30 hyd 1.30)
Dydd Mercher 15 Mai 2.00 – 5.00 pm Cyfarfod yn rhywle heblaw'r Cynulliad (Blaenafon)	1 2 3 4 5 6	Ymddiheuriadau a dirprwyon Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd Strategaeth cerdded a beicio Adolygiad pum-mlynedd Cadw: adroddiad interim drafft Drafft o Gyfarwyddyd ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy o dan y Ddeddf CROW Cofnodion y cyfarfod diwethaf
Dydd Mercher 29 Mai 2.00 – 5.00 pm	1 2 3 4 5	Ymddiheuriadau a dirprwyon Nantygwyddon: adolygiad o'r broses (adborth) Cynllun Gofodol Cymru Iechyd a'r System Gynllunio Cofnodion y cyfarfod diwethaf
Toriad y Sulgwyn: 3 – 7 Mehefin 2002		
Dydd Mercher 19 Mehefin 2.00 – 5.00 pm	1 2 3 4 5	Ymddiheuriadau a dirprwyon Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd Adolygiad polisi: cefndir ac ymgynghoriad [Trafodaeth ar flaenoriaethau'r gyllideb] Adolygiad polisi trafnidiaeth gyhoeddus: adroddiad ar gynnydd

		gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd
	6	Cynllunio: cyflawni dros Gymru a Rhwymedigaethau Cynllunio – adrodd yn ôl ar yr ymgynghoriad
	7	[Drafft o Gyfarwyddyd Statudol i Asiantaeth yr Amgylchedd]
	8	Cofnodion y cyfarfod diwethaf
Dydd Mercher 3 Gorffennaf 2.00 – 5.00 pm	1	ASPBs – sesiwn archwilio ar gynigion/Cynlluniau Corfforaethol drafft
Dydd Iau 11 Gorffennaf 2.00 – 5.00 pm Slot ar gyfer sesiwn anffurfiol neu, gyda chaniatâd y Pwyllgor Busnes, gyfarfod ffurfiol		Sesiwn anffurfiol ar opsiynau trin gwastraff
Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2.00 – 5.00 pm	1	Ymddiheuriadau a dirprwyon
	2	Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd
	3	Nantygwyddon: adroddiad ar gynnydd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd
	4	Cynllunio: cyflawni dros Gymru – ffordd ymlaen
	5	[Adolygiad Ariannu Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Amddiffynfeydd Arfordirol]
	6	[Strategaeth Trafnidiaeth Cymunedol]
	7	Cofnodion y cyfarfod diwethaf
Toriad yr Haf: 22 Gorffennaf – 11 Hydref 2002		

EITEMAU I'W CYNNWYS:

<u>Deddfwriaeth</u>

– Mesur Diogelwch y DU (wedi'i gyfeirio'n ôl o'r cyfarfod llawn)
– Is-ddeddfwriaeth ddrafft (fel y bo'n briodol)

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor
Mai 2002